# Rhybuddion o Gynigion a Gwelliannau ar gyfer Dadleuon yn y Dyfodol – 27 Mawrth 2001

## Cynigion a gyflwynwyd ar 20 Mawrth 2001

**NDM590 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan adran 62(1)(b) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo holl swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol sydd wedi eu cynnwys yn Rheoliadau'r Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) 2001, neu yn unol â'r Rheoliadau hynny, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Mawrth 2001, i Brif Weinidog y Cynulliad, heblaw am y rhai hynny na ellir eu dirprwyo yn gyfreithlon yn y modd hwn

Ni fydd cynnwys y cynnig hwn yn lleihau goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn nac yn lleihau rôl Pwyllgorau'r Cynulliad wrth weithredu'r swyddogaethau uchod.

**NDM591 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

yn ystyried egwyddor Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mawrth 2001.

**NDM592 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw fater sy'n peri pryder o dan Reol Sefydlog 11.5 yn y gorchymyn drafft, Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Mawrth 2001 ac a e-bostiwyd at Aelodau ar 20 Mawrth 2001;

yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mawrth 2001 a'r Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Mawrth 2001.

**NDM593 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

yn ystyried egwyddor Rheoliadau Cig (Hylendid ac Archwilio) (Ffioedd) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mawrth 2001.

**NDM594 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw fater sy’n peri pryder o dan Reol Sefydlog 11.5 yn y gorchymyn drafft, Rheoliadau Cig (Hylendid ac Archwilio) (Ffioedd) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Mawrth 2001 ac a e-bostiwyd at Aelodau ar 20 Mawrth 2001;

yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â’r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mawrth 2001.

**NDM595 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

yn ystyried egwyddor Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Taliadau gan Awdurdodau Lleol i Awdurdodau Iechyd) (Swyddogaethau Rhagnodedig) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Chwefror 2001.

**NDM596 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw fater sy’n peri pryder o dan Reol Sefydlog 11.5 yn y gorchymyn drafft, Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Taliadau gan Awdurdodau Lleol i Awdurdodau Iechyd) (Swyddogaethau Rhagnodedig) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Mawrth 2001;

yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â’r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Chwefror 2001.

**NDM597 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

yn ystyried egwyddor Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Tâl Cosb) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Chwefror 2001.

**NDM598 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw fater sy’n peri pryder yn y gorchymyn drafft, Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Tâl Cosb) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Mawrth 2001;

yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â’r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Chwefror 2001.

**NDM599 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu dan Reol Sefydlog 22.25:

- yn cymeradwyo:

Rheoliadau Brasterau Taenadwy (Safonau Marchnata) (Cymru) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Chwefror 2001; ac

yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw fater sy’n peri pryder yn y gorchymyn drafft, Rheoliadau Brasterau Taenadwy (Safonau Marchnata) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Chwefror 2001, a’r Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Mawrth 2001.

- Yn cymeradwyo:

Rheoliadau’r Premiwm Cigydda (Cymru) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Chwefror 2001; ac

yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw fater sy’n peri pryder yn y gorchymyn drafft, Rheoliadau’r Premiwm Cigydda (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Chwefror 2001, a’r Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Mawrth 2001.

- Yn cymeradwyo:

Rheoliadau Tai (Cadw’r Hawl i Brynu) (Diwygio) (Cymru) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Chwefror 2001; ac

yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw fater sy’n peri pryder yn y gorchymyn drafft, Rheoliadau Tai (Cadw’r Hawl i Brynu) (Diwygio) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Mawrth 2001.

**Gwelliannau a gyflwynwyd ar 22 Mawrth 2001**

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu’r gwelliannau canlynol i’r cynigion uchod:

**NDM590**

**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**

Cynnwys ail baragraff newydd fel a ganlyn:

Cynnig hefyd bod y Prif Weinidog yn gweithredu’r darpariaethau a amlinellir ym Mhennod 4, Paragraff 16 y Cytundeb Partneriaeth er mwyn sicrhau bod unrhyw brinder a nodir yn ystod archwiliad llawn parhaus o’r broses Ariannu Ewropeaidd yn arwain at gais llwyddiannus am arian o gronfa wrth-gefn y Trysorlys.

**NDM591**

**William Graham (Dwyrain De Cymru);**

Rhoi’r holl destun sy’n dilyn "Cynulliad Cenedlaethol" yn y cynnig mewn pwynt bwled, ac ychwanegu ail bwynt bwled fel a ganlyn:

- Yn croesawu’r lleihad mewn dangosyddion statudol o 172 yn 2000-2001 i 84 yn 2001-2002, ac yn gofyn am ymrwymiad gan y Cynulliad hwn i geisio cymaint â hyn o leihad eto yn 2002-2003.

**NDM593**

**William Graham (Dwyrain De Cymru)**

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ar ôl "14 Mawrth 2001" ychwaneger

; ac yn galw ar y llywodraeth i gyflwyno cynigion a fydd yn rhoi diwedd ar y rheolaeth feichus sydd ar ladd-dai Cymru ac yn sicrhau y symudir tuag at system archwilio sy’n gymesur â’r risg.